



## ARDRETHI ANNOMESTIG

### Arweiniad i'n HYSBYSIAD CYDNABOD APÊL

Nid yw'r arweiniad hwn yn cwmpasu pob agwedd o'r broses apêl. Nid oes rhaid i ni ddilyn popeth yn yr arweiniad hwn, ac nid yw'n effeithio ar sut rydym ni'n defnyddio'r deddfau neu reoliadau perthnasol. Byddwn yn ymateb i unrhyw gais rhesymol gennych chi am gyngor neu eglurhad.

Mae Tribiwnlys Prasio Cymru (TPC) yn gorff annibynnol barnwrol a sefydlwyd gan y gyfraith i wrando ar a phenderfynu ar apeliadau ynghylch Ardrethi Annomestig, y Dreth Gyngor ac Ardrethi Draenio. Mae Tribiwnlys Prasio Cymru'n gweithredu ledled Cymru ac mae ei swyddfa weinyddol yng Nghasnewydd.

Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n pennu'r Gwerth Ardrethol, a'r Cyngor/Awdurdod Bilio sy'n cyhoeddi biliau Ardrethi.

Mae aelodau Tribiwnlys Prasio Cymru yn bobl leol sy'n wirfoddolwyr. Er efallai nad ydynt yn meddu ar gymwysterau proffesiynol maent yn derbyn hyfforddiant ffurfiol ac maent yn brofiadol o ran gwrandawr ar apeliadau. Yn arferol bydd tri aelod yn gwrandawr ar eich apêl chi, er y gall dau aelod wrando ar apêl os yw pawb yn y gwrandawriad yn cytuno i hynny. Bydd clerch, sy'n gyflogai a delir gan y Tribiwnlys, yn cynghori ar bwyntiau gweithdrefn a'r gyfraith.

Mae'r Tribiwnlys yn darparu gwasanaeth am ddim felly ni all ddyfarnu costau yn eich erbyn chi. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi dalu eich costau eich hun yn gysylltiedig â mynd i wrandawriad Tribiwnlys.

#### SUT WNAETH Y TRIBIWNLYS PRASIO DDERBYN YR APÊL?

Mae'n rhaid i Asiantaeth y Swyddfa Brisio anfon pob cynnig nad yw wedi'i ddatrys i'r Tribiwnlys cyn pen tri mis wedi'u derbyn yn ôl y gyfraith. Unwaith y bo'r Tribiwnlys wedi derbyn cynnig mae'n dod yn apêl.

Os yw eich apêl yn erbyn penderfyniad Asiantaeth y Swyddfa Brisio nad yw eich cynnig yn ddilys, mae'n rhaid i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ei anfon i'r Tribiwnlys cyn pen pedair wythnos.

**Os oes unrhyw fanylion yn yr hysbysiad yn anghywir, cysylltwch â swyddfa'r Tribiwnlys ar unwaith, os gwelwch yn dda.**

Os ydych chi'n llwyddo i ddatrys eich apêl, gadewch i'r Tribiwnlys wybod, os gwelwch yn dda. Cewch dynnu eich apêl yn ôl, yn ysgrifenedig, ar unrhyw gam cyn dyddiad y gwrandawriad

#### GWYBODAETH AM APELIADAU ARDRETHI

Mae Gwerth Ardrethol eiddo wedi'i gynnwys yn y rhestr ardrethi wedi'i seilio ar ei werth rhentu ar y Dyddiad Prasio Rhagflaenol. Mae'r Dyddiad Prasio Rhagflaenol yn dibynnu ar y cofnod rhestr ardrethi dan apêl, fel a ganlyn:

Rhestr ardrethi	Dyddiad Prasio Rhagflaenol
2010	1 Ebrill 2008
2017	1 Ebrill 2015

Pan wnaeth Asiantaeth y Swyddfa Brisio bennu'r Gwerth Ardrethol, roedd yn ystyried y rhent (os o gwbl) am eich eiddo ar y Dyddiad Priso Ardrethol a'i gymharu gyda rhenti eiddo tebyg i bennu lefelau gwerth.

Er bod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn priso'r rhan fwyaf o eiddo trwy ystyried y rhent, mae'n defnyddio dulliau eraill i brisio rhai eiddo.

Bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn rhoi manylion eich asesiad ardrethu chi, yn cynnwys y mesuriadau a'r gwerthoedd a ddefnyddiwyd.

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'ch cyngor lleol yn cadw copïau o'r rhestr ardrethi, sy'n dangos asesiadau'r holl eiddo yn ardal eich cyngor chi. Cewch ofyn i Asiantaeth y Swyddfa Brisio neu'r Cyngor i weld y rhestr, fel y medrwyd chi gymharu'r asesiadau eich eiddo chi ac eiddo eraill sy'n debyg, yn eich barn chi. Cedwir copïau o'r rhestr ardrethi ar gyfer yr holl eiddo yng Nghymru a Lloegr ar wefan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ([www.voa.gov.uk](http://www.voa.gov.uk)).

## GWYBODAETH AM APELIADAU HYSBYSIAD ANNILYSRWYDD

Nodwch, os gwelwch yn dda, wrth ystyried Apeliadau Annilysrwydd, ni chaiff y Tribiwnlys benderfynu ar gywirdeb neu fel arall y gwerth bandio.

Gall y Tribiwnlys edrych ar y rheolau sy'n berthnasol i wneud cynnig yn unig. Os yw'r Tribiwnlys yn penderfynu bod eich cynnig chi'n ddilys, bydd yn ystyried y materion priso ar ddyddiad diweddarach.

## BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF?

Er budd rheolaeth effeithiol, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn rhoi apeliadau mewn rhaglenni ac yn darparu hysbysiad ymlaen llaw yr amserlen ar gyfer y cyfnod y bydd trafodaethau'n digwydd, cyn rhestru gan y Tribiwnlys. Y cyfnod prysurau ar gyfer cyflwyno apeliadau yw yn union yn dilyn ailbrisio; felly mae potensial am oedi dechreuol.

Bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn rhoi **dyddiad dechrau** i chi, sef y dyddiad y bydd yn dechrau trafod eich apêl gyda chi, a **dyddiad targed**, sef y dyddiad y dylai'r trafodaethau ddod i ben. Mewn llawer o achosion bydd yr apêl wedi'i datrys erbyn y dyddiad targed, ac yna ni fydd gwrandawriad tribiwnlys yn ofynnol mwyach.

Os nad oes modd datrys eich apêl erbyn y dyddiad targed, bydd y Tribiwnlys yn disgwyl i chi ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio gytuno ar y ffeithiau a thrafod y dystiolaeth byddwch yn ei chyflwyno yn y gwrandawriad. **Gallai methu â chyfnewid gwybodaeth cyn y gwrandawriad arwain at ohirio eich apêl chi.**

Yn arferol cynhelir y gwrandawriad cyn pen tri mis o ddyddiad targed Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Dylid ystyried gwrandawriad y Tribiwnlys fel cam olaf eich apêl, lle mae trafodaethau negodi blaenorol wedi methu datrys y mater. Hyd at ddyddiad y gwrandawriad dylech geisio cynnal deialog gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Bydd y Tribiwnlys yn eich hysbysu am ddyddiad y gwrandawriad o leiaf bedair wythnos ymlaen llaw.

Bydd y Tribiwnlys yn anfon copi o unrhyw wybodaeth/gohebiaeth berthnasol mae'n ei dderbyn i'r holl bartïon, er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r holl faterion.

#### A OES ANGEN I MI BARHAU I DALU FY ARDRETHI?

Er eich bod chi wedi cyflwyno apêl, mae'n rhaid i chi barhau i wneud y taliadau a ddangosir ar eich bil.

#### BETH FYDD YN DIGWYDD YNG NGWRANDAWIAD Y TRIBIWNLYS?

Yn arferol mae trafodion yn y gwrandawriad yn anffurfiol, serch hynny, mae gweithdrefnau'r Tribiwnlys yn cael eu llywodraethu gan y gyfraith ac mae ganddo ei Brocolau ei hun (arferion a gweithdrefnau) sy'n darparu rhagor o arweiniad ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan y partïon sy'n ymddangos o'i flaen. Mae'r Protocolau hyn a rhagor o arweiniad i'w gweld ar ein gwefan.

Bydd y Tribiwnlys yn penderfynu pwy fydd yn cyflwyno eu hachos gyntaf a bydd yn sicrhau bod y rhai sy'n anghyfarwydd â gweithdrefnau'r Tribiwnlys yn cael pob cyfle i gyflwyno eu tystiolaeth, a bod y ffeithiau perthnasol yn cael eu cyflwyno mor llawn ag y bo'n bosibl.

#### A OES ANGEN I MI DDOD I'R GWRANDAWRIAD?

Yn arferol mae'n well os fedrwch chi ddod i'r gwrandawriad, un ai'n bersonol neu trwy gyswllt fideo, gan fod hyn yn caniatáu egluro'r materion sy'n creu anghydfod a chwestiynu, os oes angen. Fodd bynnag, gellir ymdrin â'ch apêl yn un o'r ffyrdd isod, ar sail cyflwyniad clir a chryno.

#### **Sylwadau ysgrifenedig** (yn unol â'r Rheoliadau)

Caiff y Tribiwnlys ymdrin â'ch apêl chi yn y modd yma yn unig os yw'r **holl bartïon yn cytuno i ddefnyddio'r dull hwn**.

Pan fo apêl yn cael ei phenderfynu trwy sylwadau ysgrifenedig, dim ond y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarperir gan bob parti y gellir ei hystyried. Nid yw'r partïon yn bresennol mewn gwrandawiadau o'r fath.

Os yw pawb yn cytuno, yn ysgrifenedig, byddwch yn cael eich hysbysu am y weithdrefn.

Gallai'r Tribiwnlys ofyn i'r partïon am ragor o dystiolaeth. Gallai benderfynu mai'r unig ffordd o ymdrin â'r achos yw trwy gynnal gwrandawriad ffurfiol.

#### **Cyflwyniad ysgrifenedig**

Os na fedrwch chi ddod i'r gwrandawriad a'ch bod yn dymuno i'r achos gael ei glywed yn eich absenoldeb chi, ond nid yw'r partïon wedi cytuno i'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig ffurfiol, mae'n rhaid i chi ysgrifennu a rhoi manylion unrhyw bwyntiau rydych chi'n dymuno iddynt gael eu hystyried. Bydd y partïon eraill yn parhau i ddod i'r gwrandawriad tribiwnlys.

**Os nad ydych chi na'ch cynrychiolydd yn bresennol yn y gwrandawriad, gallai'r Panel Apêl wrthod yr apêl.**

**Nod y Tribiwnlys yw trin pawb yn deg ac ni fydd yn trin unrhyw un sy'n cyflwyno apêl yn llai ffafriol am unrhyw reswm.**

**Os oes gennych chi unrhyw anghenion yn ymwneud â'ch golwg, clyw neu symudedd, er engrhaifft, neu os oes arnoch chi angen cyfieithydd, gadewch i swyddfa'r Tribiwnlys wybod ymlaen llaw, os gwelwch yn dda, ac fe wnawn ein gorau i gynorthwyo.**

#### A FEDRA' I GWYNO AM Y GWASANAETH A DDARPARWYD?

Os oes gennych chi gŵyn am y modd y gwnaeth gweinyddiaeth Tribiwnlys Prisio Cymru drin eich hachos chi, yn gyntaf dylech ysgrifennu at y Tribiwnlys yn y cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiadau. Cewch eich hysbysu am weithdrefn gwynion lawn y Tribiwnlys yn ymateb Clerc y Tribiwnlys.

Cewch ddefnyddio'r broses hon i wneud cwyn am y modd y gwnaeth y Tribiwnlys drin eich apêl yn weinyddol. Bydd apêl bellach yn erbyn y penderfyniad yn cael ei chyflwyno i'r uwch lysoedd.

#### RHAGOR O WYBODAETH

Paratoir yr hysbysiadau yn Gymraeg a/neu yn Saesneg, yn dibynnu ar yr iaith a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r apêl wreiddiol.

Croesewir gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd ysgrifennu atom ni yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r arweiniad hwn yn un o gyfres o daflenni sy'n rhoi gwybodaeth am ein gwasanaethau ni. Mae'n taflenni arweiniad eraill yn cynnwys:

- cyngor cyffredinol ar gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys;
- arweiniad i'n hysbysiad gwrandawriad; ac
- arweiniad i'n hysbysiad o benderfyniad.

Rydym ni hefyd yn cynnig taflenni arweiniad sy'n ymdrin ag apeliadau Prisio'r Dreth Gyngor, Atebolrwydd y Dreth Gyngor a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'r canllawiau hyn ar gael ar wefan Tribiwnlys Prisio Cymru neu gellir gofyn am gopi trwy gysylltu â'r swyddfa Tribiwnlys yn y cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiadau ni.

#### Ein cofnodion

Mae'r gyfraith yn caniatáu i unrhyw un ymweld â swyddfa Tribiwnlys i edrych ar gopiau agendâu a phenderfyniadau a wnaed gan y Tribiwnlys yn y chwe mlynedd ddiwethaf. Agendâu yw rhestrau apeliadau y rhoddwyd dyddiad gwrandawriad iddynt.

Cewch ragor o wybodaeth am Dribiwnlys Prisio Cymru, ei restrau a'i benderfyniadau apeliadau a'i gyhoeddiad ar y wefan hon: [www.valuationtribunal.wales](http://www.valuationtribunal.wales).

### **Deddfwriaeth berthnasol**

Y prif ddeddfwriaeth sy'n gweinyddu Ardrethi Annomestig yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a rheoliadau cefnogol, yn benodol:

Rheoliadau Ardrethi Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) Offeryn Statudol 2005/758 (fel y'i diwygiwyd)

### **Ein swyddfa**

Tribiwnlys Prisio Cymru  
22 Gold Tops  
CASNEWYDD  
NP20 4PG  
Ffôn: 01633 255003  
E-bost: [correspondence@valuationtribunal.wales](mailto:correspondence@valuationtribunal.wales)